# Cyflwyno'r broses Orfodol o Olrhain Gwastraff mewn modd Digidol

## Crynodeb o'r ymatebion

Dyddiad: Rhagfyr 2022

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir y wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

wastetracking@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys

Cyflwyno'r broses Orfodol o Olrhain Gwastraff mewn modd Digidol....1

Crynodeb o'r ymatebion....1

Cyflwyniad ....4

Nifer yr Ymatebion....4

Gwybodaeth am yr Ymatebwyr....5

Ymatebion yn ôl Cwestiwn....9

Y Camau Nesaf ....30

Atodiad A – Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd....31

# Cyflwyniad

Rhwng 21 Ionawr 2022 a 15 Ebrill 2022, ymgynghorodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, ar y cyd ar gyflwyno'r broses orfodol o olrhain gwastraff mewn modd digidol. Er bod polisi gwastraff yn fater datganoledig, mae llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig wedi cytuno i gydweithio i ddatblygu gwasanaeth olrhain gwastraff ar draws y DU i ddarparu system ddi-dor ar draws y DU.

Mae'r DU wedi ymrwymo i symud tuag at economi fwy cylchol, sy'n golygu ein bod yn cadw adnoddau ar waith am gyn hired â phosibl, yn cael y gwerth mwyaf ohonynt, yn lleihau gwastraff, ac yn annog defnyddio adnoddau'n effeithlon. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni sicrhau bod gennym wybodaeth am ba wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac i le mae'n mynd. Ar hyn o bryd, nid oes un ffordd gynhwysfawr o olrhain y gwastraff hwn, ac mae llawer iawn o ddata naill ai heb ei gasglu neu heb ei  goladu'n ganolog.

Bydd uno'r systemau darniog hyn a disodli'r gwaith o gadw cofnodion ar bapur drwy olrhain gwastraff mewn modd digidol yn ei gwneud yn haws ac yn cymryd llai o amser i gwmnïau gwastraff cyfreithlon gydymffurfio â gofynion adrodd. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach o lawer i weithredwyr twyllodrus gystadlu yn y diwydiant a chyflawni troseddau gwastraff, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, cam-ddosbarthu gwastraff yn fwriadol, allforio gwastraff anghyfreithlon, a gweithredu safleoedd gwastraff anghyfreithlon.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn rhoi pwerau i lywodraethau ledled y Deyrnas Unedig gyflwyno rheoliadau i sefydlu system electronig ar gyfer olrhain gwastraff, ac roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am ein cynigion ar gyfer hyn.

# Nifer yr Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 713 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 662 drwy Citizen Space, 48 dros e-bost, a 3 drwy'r post. O'r ymatebion a gyflwynwyd dros yr e-bost a'r post, roedd 40 yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad ac roedd 11 yn ymatebion cyffredinol. At ddibenion y crynodeb hwn, dim ond y rheini a aeth i'r afael yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad sydd wedi cael eu crynhoi. Felly, mae'r crynodeb hwn yn seiliedig ar 702 o ymatebion.

Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried wrth ddrafftio Ymateb Llywodraeth y DU ar y cyd i'r ymgynghoriad.

Yn y crynodeb hwn, mae'r canrannau wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae hyn yn golygu na fydd y canrannau yn adio i roi 100 bob tro. Edrychwyd ar yr ymatebion i bob cwestiwn yn gyffredinol ac o ran ymatebwyr unigol. Nid oedd dim cwestiynau lle'r oedd un math o ymatebydd yn cael ei gynrychioli'n gryf mewn dewis penodol o ateb.

**Tabl 1 - Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl dull**

| Dull ymateb | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| **Citizen Space** | 662 |
| **E-bost** | 48 |
| **Post** | 3 |
| **Cyfanswm** | 713 |

## Gwybodaeth am yr Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan sefydliadau sy'n gweithredu ym mhob un o'r pedair gwlad. Cafwyd 588 o ymatebion gan sefydliadau sy'n gweithredu yn Lloegr, 164 gan sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru, 182 gan y rhai sy'n gweithredu yn yr Alban, a 98 o Ogledd Iwerddon. Ni roddodd 7 ymatebydd ateb i'r cwestiwn a oedd yn gofyn ymhle roedden nhw'n gweithredu. Mae hyn yn rhoi mwy na 702 gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un wlad.

**Tabl 2 - Nifer yr ymatebwyr sy'n gweithredu ym mhob Gwlad**

| Gwlad yn y DU | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Lloegr** | 588 | 85% |
| **Gogledd Iwerddon** | 98 | 14% |
| **Yr Alban** | 182 | 26% |
| **Cymru** | 164 | 23% |
| **Dim ymateb** | 7 | 1% |

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr pa gategori o ymatebwyr oedd yn eu cynrychioli orau, yn eu barn nhw. Mae'n bwysig nodi bod ymatebwyr wedi nodi eu hunain eu bod yn perthyn i bob un o'r grwpiau hyn, ac nad yw hyn wedi cael ei ddilysu. Mae Tabl 3 yn dangos nifer yr ymatebion ar gyfer pob math o ymatebydd.

**Tabl 3 - Dadansoddiad o sut roedd yr ymatebwyr yn nodi eu hunain i ba gategori roedden nhw'n perthyn**

| Math o ymatebydd | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Sefydliad sy'n cynrychioli busnes neu gorff masnach** | 77 | 11% |
| **Gweithredwr safle gwastraff** | 91 | 13% |
| **Brocer neu werthwr gwastraff** | 55 | 8% |
| **Cwmni cludo gwastraff neu gludwr gwastraff** | 123 | 18% |
| **Cynhyrchwr gwastraff** | 123 | 18% |
| **Gweithgynhyrchwr cynhyrchion** | 18 | 3% |
| **Awdurdod lleol** | 82 | 12% |
| **Grŵp Cymunedol** | 1 | Llai na 1% |
| **Sefydliad anllywodraethol** | 6 | 1% |
| **Elusen neu fenter gymdeithasol** | 8 | 1% |
| **Ymgynghoriaeth** | 17 | 2% |
| **Sefydliad academaidd neu ymchwil** | 8 | 1% |
| **Aelod o'r cyhoedd** | 27 | 4% |
| **Arall** | 64 | 9% |
| **Heb ateb** | 2 | Llai na 1% |

Mae Tabl 4 yn dangos nifer pob math o ymatebydd sy'n gweithredu ym mhob un o'r pedair gwlad, a chanran y math hwnnw o ymatebydd ym mhob gwlad. Ni atebodd pob ymatebydd y cwestiwn am y math o ymatebydd, felly efallai na fydd y niferoedd yn cyfateb i'r cyfanswm a ddywedodd eu bod yn gweithredu yn y wlad honno (a ddangosir yn Nhabl 2).

**Tabl 2 - Dadansoddiad o fath o ymatebydd mewn gwlad***

| Math o Ymatebydd | Lloegr Nifer | Lloegr % | Gogledd Iwerddon Nifer | Gogledd Iwerddon % | Yr Alban Nifer | Yr Alban % | Cymru Nifer | Cymru % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad sy'n cynrychioli busnes neu gorff masnach** | 64 | 11 | 23 | 23 | 41 | 23 | 33 | 20 |
| **Gweithredwr safle gwastraff** | 74 | 13 | 14 | 14 | 30 | 16 | 23 | 14 |
| **Brocer neu werthwr gwastraff** | 55 | 9 | 10 | 10 | 14 | 8 | 15 | 9 |
| **Cwmni cludo gwastraff neu gludwr gwastraff** | 115 | 20 | 11 | 11 | 18 | 10 | 19 | 12 |
| **Cynhyrchwr gwastraff** | 101 | 17 | 7 | 7 | 30 | 16 | 31 | 19 |
| **Gweithgynhyrchwr cynhyrchion** | 14 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| **Awdurdod lleol** | 59 | 10 | 7 | 7 | 11 | 6 | 5 | 3 |
| **Grŵp Cymunedol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Sefydliad anllywodraethol** | 4 | 1 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | 1 |
| **Elusen neu fenter gymdeithasol** | 7 | 1 | 5 | 5 | 6 | 3 | 5 | 3 |
| **Ymgynghoriaeth** | 17 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 4 | 2 |
| **Sefydliad academaidd neu ymchwil** | 7 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |

* Oherwydd talgrynnu, ni fydd pob canran yn adio i roi 100

| Math o Ymatebydd | Lloegr Nifer | Lloegr % | Gogledd Iwerddon Nifer | Gogledd Iwerddon % | Yr Alban Nifer | Yr Alban % | Cymru Nifer | Cymru % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelod o'r cyhoedd** | 17 | 3 | 2 | 2 | 5 | 3 | 6 | 4 |
| **Arall** | 53 | 9 | 10 | 10 | 18 | 10 | 19 | 12 |

# Ymatebion yn ôl Cwestiwn

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cael ateb cynifer neu gyn lleied o gwestiynau ag yr oedden nhw'n ei ddymuno, felly ni chafwyd 702 o ymatebion i bob un cwestiwn.

Roedd cwestiynau 1 i 3, a 6, yn gwestiynau gweinyddol (enw, manylion cyswllt, cyfrinachedd, a diddordeb mewn ymuno â'r panel defnyddwyr).

Ymdrinnir â chwestiynau 4 a 5 yn adran 'gwybodaeth am yr ymatebwyr' yn y crynodeb hwn.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r mathau o wastraff rydym yn cynnig eu holrhain?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw'n dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 688 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 79% yn cytuno, 16% yn anghytuno, a 5% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 142 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn ogystal â gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynigion, roedd y pryderon yn cynnwys: mwy o faich ar fusnesau (yn enwedig busnesau bach), ymholiadau ynghylch sut byddai'r cynigion yn berthnasol i fasnachwyr sy'n ymweld â chartrefi domestig, a phryderon bod y cynigion yn eithrio sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer pa weithgareddau gwastraff a gaiff eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw'n dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 691 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 73% yn cytuno, 21% yn anghytuno, a 6% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 172 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn ogystal â gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynigion, roedd y pryderon yn cynnwys: y posibilrwydd o fwy o faich ar fusnesau, cynnwys symud gwastraff rhwng safleoedd sy'n cael eu gweithredu gan yr un parti, ac ymholiadau ynghylch sut byddai cofnodi trin gwastraff ar y safle yn gweithio'n ymarferol.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar gyfer pryd na fydd angen olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw'n dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 687 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 71% yn cytuno, 17% yn anghytuno, a 12% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 144 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn ogystal â gwrthwynebiad cyffredinol i’r cynigion, prif thema’r ymatebion hynny oedd pryder y bydd eithriadau’n creu mannau gwan a fydd yn caniatáu i’r system gael ei chamddefnyddio. Cafwyd sawl awgrym na ddylid cael eithriadau.

**Cwestiwn 10: Oes gennych chi unrhyw farn ynghylch sut y dylem gynnwys gweithgareddau gwastraff a gynhelir o dan esemptiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Diwastraff, Sefyllfaoedd Gwastraff Risg Isel a Datganiadau Sefyllfa Rheoleiddiol fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o un o’r canlynol:

A) gofyn am fanylion llawn (fel yn yr adran ‘Gweithgareddau gwastraff i gael eu cofnodi yn y gwasanaeth olrhain gwastraff’)
B) eu heithrio rhag yr angen i ddarparu'r wybodaeth bellach hon, gan nodi y byddai hyn yn creu bwlch yn ein darlun gwastraff cyffredinol
C) cael cymysgedd o A) a B), gyda rhai gweithgareddau penodol yn cynnwys gofyniad i gofnodi'r manylion hyn ac eraill nad ydynt
D) gwneud rhywbeth arall i'w cynnwys

Os oedden nhw’n dewis ‘D’, gofynnwyd i’r ymatebwyr roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 651 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 39% opsiwn A, dewisodd 14% opsiwn B, dewisodd 42% opsiwn C, a dewisodd 5% opsiwn D.

Rhoddodd 80 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn ogystal â gwrthwynebiad cyffredinol i’r cynigion, cafwyd sawl awgrym eto na ddylid cael eithriadau.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i ddileu'r gofyniad i gyflwyno gwybodaeth neu ffurflenni data ar wastraff fel y'u rhestrir, pan fydd y gwasanaeth olrhain gwastraff yn fyw?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw’n dewis ‘anghytuno’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 689 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 82% yn cytuno, 8% yn anghytuno, a 11% wedi dewis dim barn.[*]

Rhoddodd 95 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys pryderon ynghylch dibynadwyedd y gwasanaeth newydd, gyda rhai’n awgrymu y dylid cael rhywfaint o orgyffwrdd rhwng ffurflenni data gwastraff cyfredol a defnyddio’r gwasanaeth

---

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

newydd. Nododd nifer o ymatebwyr yr hoffent i adroddiadau ar ffurf WasteDataFlow* fod ar gael o hyd.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion cofnodi gwybodaeth yn Nhabl 1?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno ag amrywiaeth o gynigion cofnodi gwybodaeth. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

**Tabl 3 - Ymatebion i'r cynigion cofnodi gwybodaeth†**

| Cynnig | Nifer yr Ymatebion | Cytuno | Anghytuno | Dim barn |
|---|---|---|---|---|
| **Dynodydd unigryw a gaiff ei greu gan y system** | 680 | 85% | 7% | 8% |
| **Manylion y person a wnaeth ddosbarthu'r gwastraff** | 676 | 70% | 15% | 15% |
| **Manylion y gyrchfan ar gyfer pob symudiad gwastraff, yn cynnwys y math o awdurdodiad sydd gan y gyrchfan** | 678 | 84% | 8% | 8% |
| **Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)** | 678 | 76% | 10% | 15% |
| **Manylion llwythi a wrthodwyd neu sydd dan gwarantîn** | 674 | 79% | 5% | 16% |
| **Manylion trin gwastraff** | 677 | 79% | 7% | 14% |
| **Nodi Llygryddion Organig Parhaus (POP)** | 671 | 65% | 11% | 23% |
| **Manylion deunyddiau a chynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir** | 675 | 71% | 11% | 18% |
| **Gwybodaeth am gyrchfan deunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff** | 678 | 71% | 14% | 15% |

* WasteDataFlow yw'r system ar-lein a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol y DU i roi gwybod i'r llywodraeth am ddata gwastraff trefol.

† Oherwydd talgrynnu, ni fydd pob canran yn adio i roi 100

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofynion sy'n benodol i wlad ar gyfer unrhyw ofynion presennol neu yn y dyfodol** | 668 | 63% | 7% | 29% |

Rhoddodd 221 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd y themâu o'r ymatebion hynny'n cynnwys: pryder am lygryddion organig parhaus (POP) a sut y bydden nhw'n cael eu cynnwys yn y gwasanaeth (gan gynnwys pryderon cymhwysedd ynghylch gwybod a yw'r llygryddion organig parhaus yn bresennol mewn gwastraff), pryderon am ddefnyddio codau SIC, anghytuno â'r awgrym bod manylion y sawl sy'n dosbarthu'r gwastraff yn cael eu cofnodi ar y gwasanaeth (yn hytrach, cafwyd awgrymiadau y dylai'r manylion fod ar lefel y cwmni), ac anghytuno y dylai cynhyrchion diwedd gwastraff gael eu holrhain, gan fod yr ymatebwyr hynny'n teimlo nad yw'r cynhyrchion hynny yn wastraff mwyach ac felly ddim yn rhan o'r gwasanaeth.

**Cwestiwn 13: Llygryddion Organic Parhaus (POPs) – faint o wybodaeth am POPs ddylai gael ei chofnodi fel rhan o'r gwasanaeth yn eich barn chi?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol:

- lefel sylfaenol – arwydd mai dim ond POPs y mae gwastraff yn ei gynnwys
- lefel uwch – manylion ychwanegol am y POPs penodol a geir yn y gwastraff a lefel cynnwys y POPs
- arall
- dim barn

Os oedden nhw'n dewis 'arall, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 678 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, dewisodd 40% lefel sylfaenol, dewisodd 25% lefel uwch, dewisodd 12% arall, a dewisodd 23% dim barn.

Rhoddodd 107 o ymatebwyr ragor o fanylion. Prif themâu'r ymatebion hyn oedd y byddai'n well cael cymysgedd o opsiynau, a bod pryder ynghylch yr anhawster o wybod pryd y mae POPs yn bresennol mewn gwastraff.

**Cwestiwn 14: Oes unrhyw wybodaeth arall am reoli gwastraff a ddylai gael ei chofnodi fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol newydd?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis oes, nac oes, neu dim barn. Os oedden nhw wedi dewis 'oes', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 675 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 24% wedi dewis oes, 45% wedi dewis nac oes, a 31% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 173 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd awgrymiadau ar gyfer cofnodi gwybodaeth arall yn cynnwys: ffynhonnell y gwastraff (er enghraifft, os cafodd ei dipio'n anghyfreithlon), manylion ID y cludwr, manylion y brocer, cofrestriadau cerbydau, a chyfradd ailgylchu neu lefelau perfformiad safleoedd.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n gyfarwydd â'r codau D ac R presennol?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydw, nac ydw, neu ddim yn gymwys i chi.

Cafwyd 674 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 50% wedi dewis ydw, 25% wedi dewis nac ydw, a 26% wedi dewis ddim yn gymwys.*

**Cwestiwn 16: Ydych chi o'r farn bod codau D ac R yn hawdd i'w cymhwyso?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydw, nac ydw, neu ddim yn gymwys i chi. Os oedden nhw wedi dewis 'nac ydw', gofynnwyd iddyn nhw ddweud wrthym pam eu bod yn ei chael yn anodd eu cymhwyso.

Cafwyd 667 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 33% wedi dewis ydw, 16% wedi dewis nac ydw, a 52% wedi dewis ddim yn gymwys.†

Rhoddodd 94 o ymatebwyr ragor o fanylion. Prif thema'r ymatebion hynny oedd bod codau D ac R yn gallu bod yn amwys ac yn ddryslyd. Nodwyd hefyd nad yw'r codau D ac R presennol yn cynnwys yr holl weithgareddau.

**Cwestiwn 17: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar sut y dylid cofnodi gweithgareddau adfer neu waredu fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis oes neu nac oes. Os oedden nhw wedi dewis 'oes', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 648 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 20% wedi dewis oes a 80% wedi dewis nac oes.

Rhoddodd 148 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: ehangu'r rhestr o godau i gynnwys ystod ehangach o weithgareddau, symleiddio'r rhestr o godau, darparu cwymplen, darparu disgrifiadau manylach o'r codau a chanllawiau ar sut i'w defnyddio, a rhoi opsiynau penodol ar sail y drwydded, y safle neu'r eithriad i'r defnyddiwr. Roedd pryderon hefyd ynghylch defnyddio codau R13 a D15‡. Roedd rhai'n awgrymu dileu'r codau hyn, ac roedd eraill yn awgrymu bod yn rhaid cael ail god i allu pennu ymhellach y dull adfer neu'r dull gwaredu.

---

* Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100

† Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100

‡ R13 - Storio gwastraff hyd nes y bydd unrhyw un o'r gweithrediadau R1 i R12 (heb gynnwys storio dros dro, tra'n aros i gael ei gasglu, ar y safle lle mae'n cael ei gynhyrchu). D15 - Storio hyd nes y bydd unrhyw rai o'r gweithrediadau D1 i D14 (heb gynnwys storio dros dro, tra'n aros i gael ei gasglu, ar y safle lle mae'n cael ei gynhyrchu)

**Cwestiwn 18: Deunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff – ydych chi'n defnyddio unrhyw godau neu ddisgrifiadau safonol presennol i gofnodi cynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir o wastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydw neu nac ydw. Os oedden nhw wedi dewis 'ydw', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 639 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 11% wedi dewis ydw a 89% wedi dewis nac ydw.

Rhoddodd 75 o ymatebwyr ragor o fanylion. Nodwyd bod safonau cyfunol, safonau BS EN ISO, safonau compost, codau EWC a chodau SIC yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 19: Ydych chi'n cludo gwastraff peryglus?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydw neu nac ydw.

Cafwyd 667 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 29% wedi dewis ydw a 71% wedi dewis nac ydw.

**Cwestiwn 20: Sut rydych yn cofnodi gwybodaeth am nwyddau peryglus ar hyn o bryd?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol - cofnod papur, cofnod digidol, y ddau, neu ddim yn berthnasol.

Cafwyd 658 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, dewisodd 18% gofnod papur, dewisodd 2% gofnod digidol, dewisodd 16% y ddau, a dewisodd 64% ddim yn berthnasol.

**Cwestiwn 21: Yn eich barn chi, ble ddylai gwybodaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Nwyddau Peryglus o ran symud gwastraff gael ei chofnodi?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol - yn y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd, rhywle arall, neu dim barn. Os oedden nhw wedi dewis 'rhywle arall', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 667 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 61% wedi dewis y gwasanaeth olrhain gwastraff newydd, 5% wedi dewis rhywle arall, a 34% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 48 o ymatebwyr ragor o fanylion. Nid oedd unrhyw themâu cryf yn yr ymatebion hyn, ond credai nifer o'r ymatebwyr y dylai'r gwaith papur fod ar wahân, a thynnwyd sylw at y risg o ddyblygu gyda'r rheoliadau traffig ffyrdd.

**Cwestiwn 22: Os ydych yn cynhyrchu, yn rheoli neu'n trin gwastraff mewn unrhyw ffordd, oeddech chi'n ymwybodol o'ch dyletswydd i gymhwyso'r hierarchaeth wastraff cyn darllen yr ymgynghoriad hwn?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis oeddwn, nac oeddwn, neu ddim yn berthnasol.

Cafwyd 682 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 77% wedi dewis oeddwn, 11% wedi dewis nac oeddwn, a 12% wedi dewis ddim yn berthnasol.

**Cwestiwn 23: Yn eich barn chi, a ddylai deiliaid gwastraff, gan gynnwys cynhyrchwyr, gofnodi eu bod yn cydymffurfio â chymhwyso'r hierarchaeth wastraff fel rhan o'r gwasanaeth Olrhain Gwastraff?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis dylent, na ddylent, neu dim barn. Os oedden nhw wedi dewis ‘dylent’, gofynnwyd iddyn nhw roi manylion sut y dylid gwneud hyn yn eu barn nhw.

Cafwyd 683 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 53% wedi dewis dylent, 19% wedi dewis na ddylent, a 28% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 298 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys: dylai’r gwasanaeth olrhain gwastraff gynnwys rhestr o’r opsiynau hierarchaeth i ddewis ohonynt, neu godau a neilltuwyd iddynt y gellid eu mewnbynnu, gellid dyblygu’r blwch ticio presennol yn y gwasanaeth, bod y blwch ticio presennol yn ddiwerth o ran cofnodi cydymffurfedd, ac y dylai cynhyrchwyr ddarparu tystiolaeth neu ddatganiadau i ddangos eu bod yn cydymffurfio.

**Cwestiwn 24: Os yw'n debygol y bydd angen i chi roi data yn y gwasanaeth olrhain gwastraff, pa un o'r opsiynau fyddech chi'n ei ddefnyddio ar gyfer y mwyafrif o'ch cofnodion data?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol:

- cofnod â llaw
- lanlwytho data o gofnodion taenlenni sy'n bodoli eisoes ar daenlen safonol gwasanaeth olrhain gwastraff
- lanlwytho data o feddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes i daenlen safonol gwasanaeth olrhain gwastraff
- lanlwytho data yn uniongyrchol drwy ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API)
- rhywbeth arall
- dim barn

Os oedden nhw wedi dewis ‘rhywbeth arall’, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 669 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 35% wedi dewis cofnod â llaw, roedd 16% wedi dewis lanlwytho data o gofnodion taenlenni sy'n bodoli eisoes, roedd 6% wedi dewis lanlwytho data o feddalwedd olrhain gwastraff sy'n bodoli eisoes, roedd 16% wedi dewis lanlwytho data yn uniongyrchol drwy API, roedd 13% wedi dewis rhywbeth arall, ac roedd 14% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 123 o ymatebwyr ragor o fanylion. Un thema gref o’r ymatebion hyn yw y byddai ymatebwyr yn defnyddio cymysgedd o’r opsiynau a roddwyd.

**Cwestiwn 25: Wrth gofnodi data ar eich systemau presennol, ydych chi'n defnyddio unrhyw fath o safon data?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 'ydw' neu 'nac ydw'. Os gwnaethant ddewis 'ydw', gofynnwyd iddynt ddweud wrthym beth yw'r safonau data hynny.

Cafwyd 639 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 20% wedi dewis ydw a 80% wedi dewis nac ydw.

Rhoddodd 140 o ymatebwyr ragor o fanylion. O'r ymatebion hynny, y safon data a grybwyllwyd amlaf oedd codau EWC, wedyn y safonau ISO a setiau data o fewn Llif Data Gwastraff.

**Cwestiwn 26: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n huchelgais i gofnodi symudiadau a throsglwyddiadau gwastraff mewn amser real?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw'n dewis 'anghytuno', gofynnwyd iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 684 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 65% yn cytuno, 24% yn anghytuno, a 11% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 209 o ymatebwyr ragor o fanylion. Un o'r prif bryderon yn yr ymatebion hynny oedd y baich ychwanegol posibl ar fusnesau. Roedd pryderon eraill yn cynnwys cywirdeb data ac a fyddai wi-fi neu fynediad at y rhyngrwyd ar gael.

**Cwestiwn 27: Ar gyfer y mathau canlynol o symudiadau neu drosglwyddiadau gwastraff, faint o amser y byddai ei angen arnoch yn eich barn chi i newid i system gofnodi amser real?**

Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol ar gyfer gwastraff peryglus, gwastraff nad yw'n beryglus, a mewnforion neu allforion gwastraff y rhestr werdd - llai na blwyddyn, 1 i 3 blynedd, mwy na 3 blynedd, neu ddim yn berthnasol. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 6.

**Tabl 4 - yr amser sydd ei angen i newid i system gofnodi amser real**

| Ffrwd wastraff | Nifer yr ymatebion | Llai na blwyddyn | 1 i 3 blynedd | Mwy na 3 blynedd | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff peryglus** | 651 | 30 y cant | 32 y cant | 11 y cant | 27 y cant |
| **Gwastraff nad yw'n beryglus** | 656 | 31 y cant | 40 y cant | 17 y cant | 12 y cant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff y rhestr werdd*** | 640 | 21 y cant | 24 y cant | 10 y cant | 44 y cant |

**Cwestiwn 28: Beth yw'r prif rwystrau neu gymhellion fydd yn dylanwadu ar yr amser mae'n ei gymryd i chi newid i system gofnodi amser real?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddisgrifio'r prif rwystrau neu gymhellion.

Cafwyd 526 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Yn yr ymatebion hynny, y rhwystrau a grybwyllwyd amlaf oedd: cost, amser, cleientiaid neu gyflenwyr yn mabwysiadu’r gwasanaeth, mynediad at y dechnoleg sydd ar gael, yr adnoddau sydd ar gael, hyfforddiant, a chreu neu uno systemau presennol. Y cymhellion a grybwyllwyd amlaf oedd: system hawdd ei defnyddio, meddalwedd sy’n gweithio ac sy’n gadarn, adroddiadau amser real ar gael, a rheoli data’n fwy cywir.

**Cwestiwn 29: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r broses arfaethedig gyffredinol a nodir yn Atodiadau A, B ac C?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr gytuno, anghytuno neu ddewis dim barn ar gyfer y prosesau cofnodi gwybodaeth am symudiadau gwastraff a gynigiwyd yn:

- Atodiad A – symudiadau gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus
- Atodiad B – allforion gwastraff y rhestr werdd
- Atodiad C – mewnforion gwastraff y rhestr werdd

Mae'r ymatebion wedi’u crynhoi yn y tabl isod.

**Tabl 5 - Prosesau ar gyfer cofnodi gwybodaeth†**

| Atodiad | Nifer yr ymatebion | Cytuno | Anghytuno | Dim barn |
|---|---|---|---|---|
| **A – Gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus** | 659 | 71% | 14% | 16% |
| **B – Allforion gwastraff y rhestr werdd** | 652 | 46% | 6% | 47% |

* Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

† Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn y tabl hwn yn adio i roi 100

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **C – Mewnforion gwastraff y rhestr werdd** | 649 | 44% | 4% | 51% |

Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'anghytuno' ar gyfer unrhyw un o'r prosesau, gofynnwyd iddyn nhw ddweud pam. Rhoddodd 129 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn yr ymatebion hynny, yn ogystal ag anghytundeb cyffredinol â'r cynigion, roedd pryderon yn cynnwys bod angen diwygio manylion y gwasanaeth ar ddiwrnod casglu, ac ymholiadau ynghylch sut y gellid olrhain gwastraff ar ôl ei allforio.

**Cwestiwn 30: Faint o amser cyn symud gwastraff y dylai gwybodaeth a restrir o dan Gam 1 ym mhob un o'r prosesau gael ei chofnodi ar y gwasanaeth olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol ar gyfer Atodiadau A, B ac C - unrhyw bryd cyn symud y gwastraff, o leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw, o leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw, neu arall. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 8.

**Tabl 6 - Faint o amser ymlaen llaw y dylid rhoi gwybodaeth i'r gwasanaeth***

| Atodiad | Nifer yr ymatebion | Unrhyw bryd cyn symud | O leiaf 1 diwrnod ymlaen llaw | O leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| **A – Gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus** | 651 | 71% | 11% | 8% | 10% |
| **B – Allforion gwastraff y rhestr werdd** | 581 | 60% | 12% | 17% | 12% |
| **C – Mewnforion gwastraff y rhestr werdd** | 578 | 60% | 12% | 17% | 12% |

Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'arall' ar gyfer unrhyw un opsiwn, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 111 o ymatebwyr ragor o fanylion. O'r ymatebion hyn, yr opsiynau a awgrymwyd fwyaf oedd y dylid cofnodi gwybodaeth ar y diwrnod llwytho, neu unrhyw adeg hyd at y pwynt llwytho.

* Oherwydd talgrynnu, ni fydd pob canran yn adio i roi 100

**Cwestiwn 31: Pwy ddylai fod yn gyfrifol am gofnodi'r wybodaeth a restrir o dan Gam 1 yn Atodiad A cyn symud gwastraff peryglus neu wastraff nad yw'n beryglus?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un neu ragor o opsiynau o'r canlynol - cynhyrchwr gwastraff, cludwr gwastraff, brocer neu werthwr gwastraff, unrhyw un o'r uchod, neu arall. Os oedden nhw wedi dewis 'arall, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 661 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 39% wedi dewis cynhyrchwr gwastraff, roedd 29% wedi dewis cludwr gwastraff, roedd 15% wedi dewis brocer neu werthwr gwastraff, roedd 24% wedi dewis unrhyw un o'r uchod, a 6% wedi dewis arall.

Rhoddodd 70 o ymatebwyr ragor o fanylion. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn y dylai fod yn hyblyg, y dylai pawb fod yn chwarae rhan. Roedd eraill yn credu mai'r cynhyrchwr neu'r brocer, neu'r cynhyrchwr neu'r cludwr ddylai fod yn gyfrifol.

**Cwestiwn 32: O fewn pa derfyn amser y dylai cludwyr gwastraff gofnodi'r wybodaeth fel sy'n ofynnol yng Ngham 2 Atodiad A a Cham 4 ar gyfer Atodiad B?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol ar gyfer Atodiadau A a B: 24 awr, 48 awr, 3 diwrnod gwaith, 1 wythnos, neu arall. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 9.

**Tabl 7 - O fewn pa ffrâm amser y dylai cludwyr gwastraff gofnodi gwybodaeth**

| Atodiad | Nifer yr ymatebion | 24 awr | 48 awr | 3 diwrnod gwaith | 1 wythnos | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A – gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus** | 643 | 39% | 14% | 20% | 14% | 13% |
| **B – Allforion gwastraff y rhestr werdd** | 584 | 31% | 17% | 21% | 16% | 15% |

Os oedden nhw wedi dewis 'arall, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 109 o ymatebwyr ragor o fanylion. Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau heb thema glir. Roedd y rhain yn cynnwys: yn syth adeg casglu, o fewn mis, ac unrhyw bryd cyn iddo gael ei symud.

**Cwestiwn 33: Yn eich barn chi, a ddylai fod unrhyw wahaniaeth yn y gofynion yn dibynnu ai gwastraff peryglus neu wastraff nad yw'n beryglus sy'n cael ei drafod?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis dylai, na ddylai, neu dim barn. Os oedden nhw wedi dewis 'dylai', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 668 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 24% wedi dewis dylai, 57% wedi dewis na ddylai, a 20% wedi dewis dim barn.[*]

Rhoddodd 149 o ymatebwyr ragor o fanylion. Prif thema'r ymatebion hynny oedd y dylai gwastraff peryglus fod â gofynion mwy llym na gwastraff nad yw'n beryglus.

**Cwestiwn 34: Safleoedd sy'n derbyn gwastraff - O fewn pa gyfnod o amser y dylai fod angen i safleoedd sy'n derbyn gwastraff roi'r wybodaeth hon am a) y gwastraff a gludir i'w safleoedd, b) y broses o waredu, adfer, paratoi i ailddefnyddio neu drin gwastraff, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw ddeunyddiau neu gynhyrchion diwedd gwastraff a gynhyrchir ohono?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ateb o'r canlynol ar gyfer (a) a (b): 24 awr; 48 awr; 3 diwrnod gwaith; 1 wythnos; arall; neu, dim barn. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 10.

**Tabl 8 - O fewn pa ffrâm amser y dylai safleoedd sy'n derbyn gwastraff roi gwybodaeth**

| Senario | Nifer yr ymatebion | 24 awr | 48 awr | 3 diwrnod gwaith | 1 wythnos | Arall | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(a) gwastraff a dderbyniwyd[†]** | 660 | 25% | 14% | 15% | 23% | 9% | 15% |
| **(b) gwaredu, adfer, paratoi ar gyfer ailddefnyddio neu drin** | 655 | 10% | 9% | 17% | 32% | 14% | 18% |

Os oedden nhw wedi dewis 'arall', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 113 o ymatebwyr ragor o fanylion. O'r ymatebion hynny, y fframiau amser a awgrymwyd fwyaf oedd un mis, bob chwarter, neu y dylai hyn fod yn ddibynnol ar y math o wastraff neu'r broses.

**Cwestiwn 35: Tocynnau tymor - Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y cynnig hwn neu sut yr hoffech weld y symudiadau hyn yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r gwasanaeth olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 'oes' neu 'nac oes'. Os oedden nhw wedi dewis 'oes', gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100

[†] Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100

Cafwyd 654 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 36% wedi dewis oes a 64% wedi dewis nac oes.

Rhoddodd 226 o ymatebwyr ragor o fanylion. O’r ymatebion hyn, roedd cefnogaeth i gael gofyniad i lwytho i fyny neu i gofnodi cytundeb wedi’i lofnodi a’i gytuno gan y ddau barti, a bod hyn yn cael ei ddiweddaru’n flynyddol, a’r gallu i glonio cofnod blaenorol o’r gwasanaeth olrhain gwastraff a diweddaru’r dyddiad a’r amser. Fodd bynnag, roedd mwy o gefnogaeth i’r opsiwn cytundeb blynyddol. Mewn sawl ymateb, awgrymwyd y dylid cael y ddau opsiwn.

**Cwestiwn 36: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer pob un o'r rolau yn Nhabl 3?**

Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis cytuno, anghytuno, neu ddim barn ar gyfer pob un o’r gofynion canlynol: gofynion sy’n gyffredin i bawb, gofynion sy'n gyffredin i gynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid neu werthwyr gwastraff, gofynion sy'n gymwys i gynhyrchwyr gwastraff yn unig, gofynion sy'n gymwys i gludwyr gwastraff yn unig, gofynion sy’n berthnasol i gludwyr gwastraff neu froceriaid yn unig, a gofynion sy’n berthnasol i weithredwyr safleoedd sy’n derbyn gwastraff yn unig. Ceir crynodeb o’r ymatebion yn Nhabl 11.

**Tabl 9 - Gofynion yn ôl rôl**

| Gofynion yn rôl | Nifer yr ymatebion | Cytuno | Anghytuno | Dim barn |
|---|---|---|---|---|
| **Yn gyffredin i bawb** | 657 | 81% | 8% | 11% |
| **Yn gyffredin i gynhyrchwyr, cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff** | 646 | 80% | 7% | 13% |
| **Perthnasol i gynhyrchwyr gwastraff yn unig** | 641 | 73% | 10% | 17% |
| **Perthnasol i gludwyr gwastraff yn unig** | 643 | 75% | 8% | 17% |
| **Perthnasol i gludwyr neu froceriaid gwastraff yn unig*** | 638 | 74% | 8% | 19% |
| **Perthnasol i weithredwyr safleoedd sy’n derbyn gwastraff yn unig** | 646 | 74% | 6% | 20% |

* Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

Os oedden nhw wedi dewis ‘anghytuno’, gofynnwyd iddyn nhw ddweud pam. Rhoddodd 122 o ymatebwyr ragor o wybodaeth. Y pryder mwyaf a godwyd yn yr ymatebion hynny oedd cymhwysedd cynhyrchwyr i allu dosbarthu gwastraff.

**Cwestiwn 37: Sut y dylai fod yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff 'gadarnhau'r' wybodaeth a gofnodir ar gyfer eu symudiadau gwastraff?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol: opsiwn 1 – o fewn y gwasanaeth olrhain gwastraff, opsiwn 2 – drwy grynodeb wedi'i e-bostio, opsiwn 3 – drwy eithriad, ffordd arall, neu dim barn. Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘ffordd arall’, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 664 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 64% o fewn y gwasanaeth olrhain, dewisodd 7% drwy grynodeb wedi’i e-bostio, dewisodd 9% drwy eithriad, dewisodd 8% ffordd arall, a dewisodd 13% dim barn[*].

Rhoddodd 79 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yr ymateb a nodwyd amlaf oedd y byddai ymatebwyr yn debygol o ddefnyddio cymysgedd o’r opsiynau.

**Cwestiwn 38: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion cyffredinol fel y'u nodir uchod ynghylch unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn destun gofynion olrhain gwastraff?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw wedi dewis ‘anghytuno’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 664 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 65% yn cytuno, 12% yn anghytuno, a 23% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 94 o ymatebwyr ragor o fanylion. O’r ymatebion hyn, y brif thema oedd na ddylid cael unrhyw eithriadau.

**Cwestiwn 39: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dulliau amgen arfaethedig i unigolion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ddarparu'r wybodaeth ofynnol?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedden nhw wedi dewis ‘anghytuno’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 663 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 61% yn cytuno, 11% yn anghytuno, a 28% wedi dewis dim barn.

---

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

Rhoddodd 86 o ymatebwyr ragor o fanylion. O’r rhain, y pryder mwyaf amlwg oedd y defnydd o’r post fel dull amgen o gyflwyno gwybodaeth, a chafwyd nifer o ymatebion a oedd yn nodi na ddylid cael system amgen o gwbl.

**Cwestiwn 40: Faint o amser y dylai defnyddwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ei gael i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol drwy'r post yn y darpariaethau hyn? Er enghraifft, gwybodaeth wedi'i diweddaru am symud gwastraff neu fanylion trin gwastraff neu gynhyrchu deunyddiau o wastraff.**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol: 7 diwrnod, 14 diwrnod, 1 mis, arall, neu, dim barn. Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘arall, gofynnwyd iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 664 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 28% 7 diwrnod, dewisodd 21% 14 diwrnod, dewisodd 11% 1 mis, dewisodd 11% arall, a dewisodd 29% dim barn.

Rhoddodd 80 o ymatebwyr ragor o fanylion. Cafwyd nifer o awgrymiadau yn amrywio o yn syth i flynyddol, ond nid oedd un cyfnod amser penodol wedi’i awgrymu gan y mwyafrif o’r ymatebwyr hyn.

**Cwestiwn 41: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno'n gyffredinol â'r lefel arfaethedig o fynediad at wybodaeth ar gyfer pob un o'r mathau gwahanol o ddefnyddwyr a nodir yn Nhabl 4?**

Gofynnwyd i ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn ar gyfer lefel y mynediad a gynigir ar gyfer y mathau canlynol o ddefnyddwyr: swyddogion perthnasol y llywodraeth a rheoleiddwyr amgylcheddol, awdurdodau treth, gweinyddwyr cynlluniau gwastraff, awdurdodau lleol, busnesau sy’n ymwneud â symud gwastraff, cynhyrchwyr a chludwyr, safleoedd sy’n derbyn gwastraff, cynhyrchwyr gwastraff cartrefi, a’r cyhoedd yn ehangach a phartïon sydd â diddordeb. Ceir crynodeb o’r ymatebion yn Nhabl 12.

Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis ‘anghytuno’, gofynnwyd iddyn nhw ddweud pam. Rhoddodd 120 o ymatebwyr ragor o fanylion. Y rheswm a nodwyd amlaf dros anghytuno â’r lefel arfaethedig o fynediad oedd pryder ynghylch cyfrinachedd masnachol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch mynediad ehangach i’r cyhoedd a lefel mynediad awdurdodau lleol.

**Tabl 10 - Lefel mynediad at wybodaeth yn ôl math o ddefnyddiwr***

| Defnyddiwr | Nifer yr ymatebion | Cytuno | Anghytuno | Dim barn |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion perthnasol y llywodraeth a rheoleiddwyr amgylcheddol** | 657 | 82% | 3% | 15% |
| **Awdurdodau treth** | 651 | 70% | 6% | 24% |
| **Gweinyddwyr cynlluniau gwastraff** | 653 | 79% | 3% | 18% |
| **Awdurdodau lleol** | 652 | 76% | 6% | 17% |
| **Busnesau sy'n ymwneud â symud gwastraff** | 650 | 80% | 4% | 16% |
| **Cynhyrchwyr a chludwyr** | 650 | 80% | 5% | 16% |
| **Safleoedd sy'n derbyn gwastraff** | 650 | 82% | 3% | 15% |
| **Cynhyrchwyr gwastraff cartrefi** | 645 | 71% | 5% | 24% |
| **Y cyhoedd yn ehangach a phartïon sydd â diddordeb** | 649 | 64% | 10% | 27% |

**Cwestiwn 42: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cynhyrchwyr gwastraff allu gweld gwybodaeth am dynged eu gwastraff?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'cytuno', gofynnwyd iddyn nhw roi manylion beth ddylai hyn ei gynnwys, yn eu barn nhw. Os oedden nhw wedi dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 669 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 73% yn cytuno, 6% yn anghytuno, a 21% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 323 o ymatebwyr a gytunodd ragor o fanylion. O'r rhain, y themâu allweddol oedd cytuno y dylai cynhyrchwyr allu gweld gwybodaeth am y math o dynged (ailgylchu, tirlenwi ac ati), ac y dylent allu gweld lleoliad tynged terfynol eu gwastraff.

---

* Oherwydd talgrynnu, ni fydd pob canran yn adio i roi 100

Rhoddodd 41 o ymatebwyr a anghytunodd ragor o fanylion. Yn yr ymatebion hyn, y prif bryder oedd sensitifrwydd masnachol.

**Cwestiwn 43: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar GDPR y DU?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 661 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 77% yn cytuno, 4% yn anghytuno, a 18% wedi dewis dim barn.*

Rhoddodd 37 o ymatebwyr ragor o fanylion. Nid oedd themâu clir o'r ymatebion hyn, ond roeddent yn cynnwys pryderon am gyfrinachedd masnachol, a phryder y gallai cael sawl rheolydd danseilio GDPR.

**Cwestiwn 44: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion ar reoli gwybodaeth sensitif?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 660 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 78% yn cytuno, 5% yn anghytuno, a 17% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 48 o ymatebwyr ragor o fanylion. Nid oedd themâu clir o'r ymatebion hyn, ond roeddent yn cynnwys pryderon am feddyginiaethau a chyffuriau, yr angen i gael diffiniadau clir, ac awgrymiadau y dylid cael tryloywder llwyr.

**Cwestiwn 45: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am ein cynigion (neu eich anghenion) ar gyfer cadw data?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis oes neu nac oes. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'oes', roedden ni'n gofyn iddyn nhw roi rhagor o fanylion.

Cafwyd 657 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 20% wedi dewis oes a 80% wedi dewis nac oes.

Rhoddodd 73 o ymatebwyr ragor o fanylion. Ni ddaeth themâu clir i'r amlwg o'r ymatebion hyn. Roedd y sylwadau'n cynnwys pryderon ynghylch risgiau diogelwch, ac awgrymiadau na ddylid dileu data pan gaiff trwyddedau eu canslo neu eu hildio.

**Cwestiwn 46: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r troseddau arfaethedig a'r opsiynau gorfodi cysylltiedig fel y'u nodir yn Nhabl 5?**

---

* Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 670 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 70% yn cytuno, 13% yn anghytuno, a 16% wedi dewis dim barn.[*]

Rhoddodd 108 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd y sylwadau'n cynnwys awgrymiadau mai addysgu ddylai fod y dewis cyntaf, y dylai methu â chofrestru fod yn gosb ariannol amrywiadwy, ac y dylai unrhyw orfodaeth fod yn gymesur â'r effaith.

**Cwestiwn 47: Ydych chi'n meddwl y dylai uchafswm ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy gael ei nodi mewn deddfwriaeth?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydw, nac ydw, neu dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'ydw', gofynnwyd iddyn nhw roi manylion beth ddylai'r uchafswm fod, yn eu barn nhw.

Cafwyd 661 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 26% wedi dewis ydw, 45% wedi dewis nac ydw, a 29% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 106 o ymatebwyr ragor o fanylion. Un opsiwn a awgrymwyd yn aml yn yr ymatebion hyn oedd y dylai cosbau fod yn gymesur ag effaith. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cosbau fel canran o drosiant, y dylai fod yn ffi unffurf o £1000, na ddylid cael uchafswm, neu y dylai hyn fod yn gymesur â maint y busnes.

**Cwestiwn 48: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n swyddogaethau arfaethedig ar gyfer rheoleiddwyr amgylcheddol?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gytuno, anghytuno, neu ddewis dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'anghytuno', roedden ni'n gofyn iddyn nhw ddweud pam.

Cafwyd 665 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 77% yn cytuno, 7% yn anghytuno, a 16% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 62 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn naill ai'n gwrthwynebu'r cynigion yn gyffredinol neu nid oeddent yn cynnwys unrhyw beth penodol am y swyddogaethau arfaethedig.

**Cwestiwn 49: Yn eich barn chi, a ddylai fod modd adennill costau sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r rhai nad ydynt yn bodloni'r gofynion olrhain gwastraff, a chymryd camau gorfodi yn eu herbyn, drwy'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth olrhain gwastraff?**

---

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw'r canrannau hyn yn adio i roi 100.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis dylai, na ddylai, neu dim barn. Roedd blwch testun rhydd ar gael i ymatebwyr ddarparu mwy o wybodaeth i gefnogi eu hateb os oeddent yn dymuno.

Cafwyd 667 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, roedd 39% wedi dewis dylai, 47% wedi dewis na ddylai, a 14% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 257 o ymatebwyr ragor o fanylion. Y brif thema o’r ymatebion hyn oedd y farn y dylai defnyddwyr nad ydynt yn cydymffurfio neu droseddwyr dalu, nid y rhai sy’n cydymffurfio. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn awgrymu y dylai’r llywodraeth ariannu hyn.

**Cwestiwn 50: Beth yw eich opsiwn dewisol o ran pwy ddylai dalu'r costau gweithredu a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth TG?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol:

- opsiwn A – yr unigolyn neu'r busnes sy'n cofnodi'r wybodaeth gychwynnol am olrhain gwastraff
- opsiwn B – grŵp defnyddwyr penodol
- opsiwn C – talwyr ffioedd sy'n gysylltiedig â gwastraff presennol
- arall
- dim barn

Cafwyd 662 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 33% opsiwn A, dewisodd 11% opsiwn B, dewisodd 26% opsiwn C, dewisodd 11% arall, a dewisodd 18% opsiwn dim barn[*].

Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘opsiwn B’ (grŵp defnyddwyr penodol), gofynnwyd iddyn nhw ddweud wrthym pa grŵp(iau) defnyddwyr y dylai hyn fod. Rhoddodd 107 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn yr ymatebion hyn, y grŵp a awgrymwyd fwyaf oedd pob defnyddiwr, ac yna cynhyrchwyr a chludwyr gwastraff.

Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘arall’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 68 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn yr ymatebion hyn, yr opsiwn a awgrymwyd fwyaf oedd y dylai’r llywodraeth ariannu hyn, wedyn pob defnyddiwr.

**Cwestiwn 51: Beth yw eich opsiwn dewisol ar gyfer pa fath o gost y dylai fod?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol:

- opsiwn 1 – ffi fesul cofnod
- opsiwn 2 – ffi unffurf flynyddol
- opsiwn 3 – cynyddu ffioedd presennol

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

- arall
- dim barn

Cafwyd 662 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 33% opsiwn 1, dewisodd 31% opsiwn 2, dewisodd 10% opsiwn 3, dewisodd 12% arall, a dewisodd 15% opsiwn dim barn[*].

Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘arall’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 102 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cyfuniad o opsiynau 1 a 2, bandiau neu ystodau yn seiliedig ar faint y busnes, ac na ddylid codi ffi.

**Cwestiwn 52: Beth yw eich opsiwn dewisol ar gyfer sut y dylid casglu'r costau?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol:

- opsiwn X – cyfleuster talu wrth gyflwyno
- opsiwn Y – system credydau
- opsiwn Z – mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn adennill costau’r gwasanaeth drwy ffioedd a thaliadau presennol
- arall
- dim barn

Cafwyd 659 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O’r rheini, dewisodd 17% opsiwn X, dewisodd 21% opsiwn Y, dewisodd 31% opsiwn Z, dewisodd 7% arall, a dewisodd 24% opsiwn dim barn[†].

Os oedd ymatebwyr wedi dewis ‘arall’, roedden ni’n gofyn iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 55 o ymatebwyr ragor o fanylion. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys ôl-daliadau cyfnodol, cyfuniad o opsiynau X ac Y, a dim ffi o gwbl.

**Cwestiwn 53: Pa ddull gweithredu y dylem ei ddefnyddio i gael pob defnyddiwr i ddefnyddio'r gwasanaeth olrhain gwastraff yn eich barn chi?**

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis ateb o’r canlynol:

- opsiwn 1 – rhaid i bawb ddefnyddio'r gwasanaeth o'r diwrnod y caiff ei lansio
- opsiwn 2 – defnydd gwirfoddol am gyfnod penodol, wedyn bydd yn ofynnol i bawb ei ddefnyddio
- opsiwn 3 – gorfodi rhai deiliaid gwastraff i ddefnyddio'r gwasanaeth neu ei gwneud yn ofynnol i rai mathau penodol o symudiadau gwastraff gael eu cofnodi ar y gwasanaeth i ddechrau ac yna annog eraill i'w ddefnyddio dros amser

---

[*] Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100.
[†] Oherwydd talgrynnu, nid yw’r canrannau hyn yn adio i roi 100

- rhywbeth arall
- dim barn

Cafwyd 670 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, dewisodd 21% opsiwn 1, dewisodd 48% opsiwn 2, dewisodd 19% opsiwn 3, dewisodd 5% rhywbeth arall, a dewisodd 7% opsiwn dim barn.

Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'opsiwn 3', roedden ni'n gofyn iddyn nhw pa ddefnyddwyr neu fathau o wastraff ddylai ddod yn gyntaf yn eu barn nhw a pham. Rhoddodd 104 o ymatebwyr ragor o fanylion. Y brif thema yn yr ymatebion hyn oedd y dylid cyflwyno gwastraff peryglus yn gyntaf.

Os oedd ymatebwyr wedi dewis 'rhywbeth arall, roedden ni'n gofyn iddyn nhw roi rhagor o fanylion. Rhoddodd 35 o ymatebwyr ragor o fanylion. Yn ogystal â gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynigion, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cymysgedd o opsiynau 2 a 3, ac y dylid cyflwyno gwastraff peryglus yn gyntaf.

**Cwestiwn 54: O ystyried eich ateb i gwestiwn 24 yn yr adran 'Ffyrdd o roi gwybodaeth', yn eich barn chi faint fydd yn ei gostio i'ch sefydliad newid i weithio fel hyn?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu ffigur ar gyfer pob un o'r costau canlynol, a manylion unrhyw gostau eraill maen nhw'n rhagweld y byddan nhw'n eu hwynebu fel rhan o'r broses o drosglwyddo i olrhain gwastraff mewn modd digidol: hyfforddiant staff, amser ymgyfarwyddo, ymgyfarwyddo â gofynion, ymgysylltu â chwsmeriaid, newidiadau i systemau TG cyfredol, darparu unrhyw dechnoleg ar y safle, ac eraill. Fe wnaethom ofyn iddyn nhw ddarparu costau mewn punnoedd am y flwyddyn gyntaf yn unig, a dim ond cynnwys costau ychwanegol newydd sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gwasanaeth gwastraff.

Cafwyd 425 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y prif themâu o'r ymatebion hyn oedd bod angen rhagor o fanylion cyn y gallai ymatebwyr roi sylwadau ar gostau, neu nad oedden nhw'n gwybod. Pan roedd ffigurau yn cael eu rhoi, roedden nhw'n amrywio o 'isel' i dros £100,000

**Cwestiwn 55: Ydych chi o'r farn y byddai eich sefydliad yn gwneud unrhyw arbedion drwy ddechrau gweithio fel hyn?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu ffigur ar gyfer pob un o'r arbedion posibl canlynol, a manylion unrhyw arbedion posibl eraill maen nhw'n rhagweld fel rhan o'r broses o drosglwyddo i olrhain gwastraff mewn modd digidol, mewn punnoedd ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unig: costau storio data, amser a dreuliwyd yn gwirio ansawdd data, ddim yn gorfod cwblhau neu gyflwyno ffurflenni gwastraff, amser a dreuliwyd yn cael neu'n darparu gwybodaeth am wastraff oddi wrth gwsmeriaid neu iddyn nhw, neu arall.

Cafwyd 417 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r ymatebion hyn, y brif thema oedd bod ymatebwyr yn meddwl na fyddai dim arbedion. Roedd awgrymiadau gan y rhai a gredai y

byddai arbedion yn cynnwys arbedion o ran amser, arbedion o beidio â chyflwyno ffurflenni gwastraff, a gwerthoedd ariannol yn amrywio o £100 i £40,000.

**Cwestiwn 56: Ynghyd â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith sy'n nodi'r costau a'r buddiannau rydym yn eu rhagweld yn sgil cyflwyno gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol, yn seiliedig ar dybiaethau a wnaed o'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. A ydym wedi gwneud unrhyw dybiaethau rydych yn anghytuno â nhw?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis ydych, nac ydych, neu dim barn. Os oedd yr ymatebwyr wedi dewis 'ydych', gofynnwyd iddyn nhw pam ac, os oedd yn bosibl, iddyn nhw roi manylion gwybodaeth well y gallem ei defnyddio i lywio ein tybiaethau.

Cafwyd 640 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rheini, roedd 13% wedi dewis ydych, 29% wedi dewis nad ydych, a 58% wedi dewis dim barn.

Rhoddodd 100 o ymatebwyr ragor o fanylion. Nid oedd dim prif themâu o'r ymatebion hyn, ond roedd y sylwadau'n cynnwys na fyddai'r gwasanaeth yn lleihau costau, ac na fyddai'n cyflawni bwriad o ran trosedd gwastraff oherwydd nad yw'n mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

# Y Camau Nesaf

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu'r gwasanaeth olrhain gwastraff digidol gorfodol. Bydd y themâu a nodwyd yn yr ymatebion, yn ogystal ag ymchwil parhaus gydag defnyddwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddrafftio ymateb y llywodraeth y bwriadwn ei gyhoeddi yn 2023. Rydym yn ddiolchgar i bob un a ymatebodd am gymryd rhan.

# Atodiad A – Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd

Dyma restr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys y rheini a ofynnodd i'w hymateb fod yn gyfrinachol.

Nid yw'r rhestr hon o sefydliadau a ymatebodd yn gynhwysfawr, ond mae'n seiliedig ar y manylion a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gall y rhestr gynnwys ymatebion gan unigolion sy'n aelodau o sefydliadau penodol ac felly ni fydd eu hymateb o reidrwydd yn adlewyrchu barn y sefydliad hwnnw.

- 360 Environmental Ltd
- A V Transport
- A&O Van Services
- AA Limited
- Fforwm AATF
- ABC House Clearance (Lincoln)
- Cyngor Dinas Aberdeen
- Cyngor Swydd Aberdeen
- ADG Auctions
- Advanced Demolition Ltd
- AEM Ltd
- Agriwork5
- Air Products Group Ltd
- AJ & RG Barber Ltd
- all4woman hygiene Ltd
- All Round Services
- AlphaCycle Limited
- Alpheus Environmental Ltd
- Althorne Gardening & Maintenance
- The Anaerobic Digestion and Bioresources Association
- Anglian Water Services Ltd
- AP-Concept UK Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Armagh City, Banbridge a Craigavon
- Grŵp ASH /Gwasanaethau Gwastraff ASH
- Aubrey Hawkins Ltd
- Avilon Property Management
- Baco Compak (Norfolk) Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Basildon
- Beacons Business Interiors
- Belvoir Farm Drinks Ltd
- Gwasanaethau Gwastraff Biffa
- Big Atom Limited
- Biogas Meden Ltd
- Binder Ltd
- Grŵp Binn
- Black Country Asbestos Contracts Limited
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Boswell Bros (Salisbury) Ltd

- Bowmer a Kirkland Ltd
- Bourne Electrical Contractors Ltd
- Boyd Group (Scotland) Ltd
- BPR Group Europe Ltd
- BRE – Sefydliad Ymchwil Adeiladu
- Cwmnïau Grŵp Brett: Brett Concrete Ltd, Capital Concrete Ltd, Brett Landscape Ltd, Robert Brett & Sons Ltd a Brett Aggregates Ltd
- British Glass
- British Home Enhancement Trade Association
- British Metals Recycling Association
- British Sugar plc
- Cyngor Bwrdeistref Broxbourne
- BSW Timber
- BTE Services Ltd
- Cyngor Swydd Buckingham
- C N Glass Ltd
- Cadent Gas
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Calibre Climate Control Ltd
- Calmak Ltd
- Cambridge Electrical Wholesale Ltd
- Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
- Castle Environmental
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Catercraft Supplies & Heatcraft Ltd
- Cavaghan and Gray Limited
- Central Construction Services Ltd
- Centrica Business Solutions (UK) Ltd
- The Charity Retail Association
- CHC Waste Facilities Management Ltd
- Cyngor Dwyrain Swydd Gaer
- Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer
- Chest Heart & Stroke Scotland
- Chloros Environmental Ltd
- City Building (Glasgow) LLP
- CIWM
- CJSB Ltd T/A Rainbow International
- Clarkson Evans Ltd
- Cleansing Service Group Ltd
- Clearspace Stripout Services
- Clews Recycling Ltd
- Closing the Loop – Amsterdam (NL)
- Cohart Asbestos Disposal Commercial Waste Connections
- Completely Clear Limited
- Comprehensive Asbestos Removal Ltd
- Conoco Phillips (UK) Teesside Operator Limited
- Cornelius Specialities Ltd
- Crew Chart Ship Management AB
- Cyngor Sir Cumbria
- Cumbria Recycling Limited
- Curtis and Carder Services Ltd CWM Environmental Limited
- Cynon Valley Waste Disposal Ltd T/A Amgen Cymru

- D. Harrison (UK) Limited
- Dams Furniture Ltd
- Darryl Does It
- Cyngor Bwrdeistref Dartford, ar ran Tîm Gorfodi'r Amgylchedd
- David Lucias Removals Ltd
- Day Group Ltd
- Days Window & Door Services Ltd
- Cyngor Dinas Derby
- Pwyllgor Strategol Awdurdodau Dyfnaint (DASWC) – Cyngor Dosbarth Dwyrain Dyfnaint, Cyngor Dinas Caerwysg, Cyngor Dosbarth Canol Dyfnaint, Cyngor Dosbarth Gogledd Dyfnaint, Cyngor Dosbarth South Hams, Cyngor Dosbarth Teignbridge, Cyngor Dosbarth Torridge, Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Dyfnaint, Cyngor Sir Dyfnaint a Chyngor Torbay.
- DJHravcon Ltd
- Cyngor Bwrdeistref Fetropolitanaidd Doncaster
- Cyngor Dorset
- Priffyrdd Dorset
- DPS Waste Clearance
- DSM Demolition Ltd
- Dsposal Ltd
- Duchess Roofing Specialists
- Cyngor Dinas Dundee
- Dyer & Butler Ltd
- E J Taylor & Sons Ltd
- ECS Limited t/a Lancashire Shredding
- Ecosurety
- EDF Energy Nuclear Generation Limited (EDF ENGL Ltd)
- Effective Consumable Solutions (UK) Ltd
- Electrical Waste Recycling Limited
- Elleteq Limited
- Energy Networks Association (ENA)
- Enva Ltd
- Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Dinas Leeds
- Environmental Solutions Waste Management Ltd
- EnviroWales Ltd
- Etex Building Performance Limited
- Evans Vanodine International
- Evergreen Horticultural Services
- Farm and Garden Ltd
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Farncombe Smith 1990 Limited
- Fidra
- File Centre Document & Data Storage Ltd
- Fire & Safety Solutions Ltd
- Fire Door Specialists Ltd
- Fire Wizard Fire Safety
- ForwardSpread Limited G Easton & Son Ltd
- Gamble Plant (Norfolk) Ltd
- Garden and Fence Ltd
- The Gas Company UK Ltd
- GBN Services Ltd
- Gemini Fire Consultants Ltd

- George Morrison ELP Ltd
- Gil-Don Construction Services
- Prifysgol Glasgow Caledonian
- GreenDex
- Greenergy Biofuels
- Greenyard Frozen UK
- Green Meadow Ltd T/A Acorn Recyclers
- Green Spark Environmental
- Gordon’s Man and Van Service
- Cyngor Bwrdeistref Guildford
- H W Martin Waste Limited
- Cyngor Sir Hampshire
- Harro Limited
- Hazrem Environmental Ltd
- Heritage Railway Association
- Partneriaeth Gwastraff Swydd Hertford
- Hills Quarry Products Ltd Horizon
- Hornett Bros & Co Ltd
- HT Waste Recycling T/A Budget Skips
- ICEC-MCM – Canolfan Economi Gylchol Rhyngddisgyblaethol UKRI ar gyfer Deunyddiau Adeiladu Mwynau
- ICER (Cyngor Diwydiant ar Ailgylchu Offer Electronig)
- Indaver UK Ltd
- Indigo Environmental Ltd
- Indivior UK Ltd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru
- Cyngor y Diwydiant Pacio a’r Amgylchedd (INCPEN)
- INEOS O&P UK
- IntelliDigest Ltd
- Irons Brothers Ltd
- J Aston Transport Ltd
- J O’Shea & Sons Ltd
- J Tomlinson Ltd
- J&J Security & Electrical Ltd
- Jack Moody Recycling
- James Cropper PLC
- John Kelly Construction Services Limited
- John Lawrie Metals Limited
- John Sisk and Son
- Joint Waste Solutions
- Junk Bunk Ltd
- K&S Pipe Contractors LLP
- Keep Northern Ireland Beautiful
- Kennedy’s of Gosforth
- Cyngor Sir Caint
- Kent Re Users
- Kindeva Drug Delivery Ltd
- Knauf (UK) GmbH
- Lakeside EFW Ltd
- LARAC Ltd
- Law Society of Scotland
- LC Hughes Partnership
- LDB Consulting

- Lee’s Waste Solutions
- Cyngor Sir Swydd Gaerlŷr
- Liberty Speciality Steel
- Lignasite Ltd
- Lilly Clean Limited
- Lime Track Limited
- Linbrooke Services Ltd
- Partneriaeth Gwastraff Swydd Lincoln
- Cyngor Dinas Lisburn a Castlereagh
- Living Gardens Landscapes Limited
- Cyngor Cymuned Llandysilio
- London Undergound Limited
- MAC Group Ltd
- MAC Surfacing Ltd
- Magnox
- Manchester and Cheshire Construction
- Mark’s Lawn Service
- Marlowe Fire & Security
- Material Change Composting Limited
- Mayglothling
- McQuillan Envirocare Ltd
- Cyngor Medway
- Mersey Waste (NW) Ltd
- Merseyside Recycling and Waste Authority
- MGH Waste
- Cyngor Dosbarth Canol Ulster
- Midland Filtration Ltd
- Millers Vanguard Ltd
- The Mineral Products Association (MPA)
- Mitre Construction Co Ltd
- Mivan Ltd
- MKRA Utilities
- MRF Supply Chain Ltd
- Multiplex Construction Europe
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- National Grid Gas
- National Resource Consortium Limited
- Network Rail Infrastructure Limited
- Prifysgol Newcastle
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Newport Recycling Limited
- NFU Scotland
- NHS Grampian
- NHS Greater Glasgow a Clyde
- NHS Highland
- NHS Lanarkshire
- Nordex UK
- Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolk
- Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Swydd Northampton
- The Nottingham Zinc Group
- Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Gofal Iechyd Swydd Nottingham
- Nuclear Transport Solutions

- Oatley Resources Ltd
- O’brien Recycling Ltd
- OddJobs
- Offsite Archive and Integrated Storage Solutions (UK) Ltd
- Omega Proteins Ltd
- Ottervale Haulage Ltd
- OVS Waste Management LTD
- Oxford Aerials Ltd P H Hull & Sons
- Partneriaeth Gwastraff ac Adnoddau Swydd Rydychen
- Pa Handyman Services
- Parkhill Farm Supplies
- Pathways of Scarborough Ltd
- PDG Design Construct
- Clwb Rygbi Pentyrch Cyf
- Pirtek Cambridge Ltd
- Plaswire Ltd
- PM Garden Services
- Polytag Limited
- Portway Plant
- Priestgate Garden Specialists Ltd
- Pure Utility Services Ltd
- Quehenberger Transport & Logistics
- The QUENSH Consultancy Limited
- R. Bunton Ltd
- R. Plevin & Sons
- R. Wilks Landscaping
- Ray Pillinger Alloys Ltd
- Recycle NI
- Recycling Lives Ltd
- Recycling UK Limited
- Redwood Materials
- Regen Holdings Limited
- Re-gen Waste Ltd
- Regency Recycle Limited
- ReLondon
- Rentokil Initial UK Ltd T/A Initial Medical Services
- REPIC
- Resource and Fuels Ireland Ltd
- Rexel UK Ltd
- Rhino Waste Services Ltd
- Rio ESG Ltd
- Road Haulage Association
- Rowley Consulting Limited
- Rubo – Hazardous Waste Management
- Cyngor Bwrdeistref Rugby SABIC UK Petrochemicals Ltd
- Saint-Gobain Construction Products UK Ltd
- Salvation Army Trading Company (SATCoL) Ltd
- Sam Allon Limited
- Samplas Recycling
- Savills
- The Scottish Salmon Company
- Scottish Water

- Scutum UK Ltd
- SE Controls
- Grŵp SEL
- Sembcorp Energy UK Ltd
- Serco Ltd
- SGL Carbon
- Cyngor Dinas Sheffield
- Prifysgol Sheffield Hallam
- Shore Recycling Ltd
- Sierra CP Engineering Ltd
- Signs Express Exeter
- Skanska UK Plc
- Cyngor Tref Skegness
- Smith Brother Stores Ltd
- Grŵp Cynghori ar Gynllunio Gwastraff De-ddwyrain Lloegr
- Cyngor De Swydd Gaerloyw
- Partneriaeth Rheoli Gwastraff De Tyne a Wear (Cynghorau Dinas Gateshead, South Tyneside a Sunderland)
- Partneriaeth Gwastraff De Swydd Efrog
- Southern Wetrooms
- SR Rubbish Removals
- SRMA (Scotland) Ltd
- Star CWS Ltd
- Stenner Waste Transport Ltd
- Stephenson Group Ltd
- Stericycle (SRCL Ltd & Shred-it Ltd)
- Stobart Energy Ltd
- Stork Technical Services Ltd
- Street Jesus
- Suez Recycling and Recovery (UK) Limited
- Partneriaeth Gwastraff Suffolk (Cyngor Dosbarth Babergh a Chanol Suffolk, Cyngor Dosbarth Gorllewin Suffolk, Cyngor Dosbarth Dwyrain Suffolk, Cyngor Bwrdeistref Ipswich a Chyngor Sir Suffolk)
- Cyngor Bwrdeistref Swale
- Swallow Hygiene
- Talisman Plastics
- Talisman Plastics
- Target Pest Control & Hygiene Ltd
- Tarmac Trading Limited
- Thistle Loos Ltd
- Thomas Sinden Limited
- Thomas Symons
- Thompson Recycling Ltd
- Timm Cann Ltd
- TKL Skip Hire Limited
- Tradebe Fawley Ltd
- Trashman Clearance Ltd
- Tyre Recovery Association
- UK Remediation Ltd
- Uniper UK Limited
- United Kingdom Lubricants Association
- United Resource Operators Consortium Limited (UROC)

- United Utilities
- Prifysgol Caerwysg
- Unyte Waste Limited
- Valero Energy Ltd
- Valpak
- Vehicle Recyclers’ Association
- Viabl Ltd T/A Able Group
- Viridor
- Vistry Group
- Waltet Materials Ltd
- Warkton Roofing Co Ltd
- Wastebuster CIC
- Wastecare Group Limited
- Wasted NE Ltd
- Waste Managed Ltd
- Cyngor Dosbarth Wealden
- Wealdon Services Ltd
- Wedge Group Galvanising Ltd
- WEEE Solutions Limited
- Weidmann Whiteley Ltd
- Wessex Water
- West Midlands Resource Technical Advisory Body
- Cyngor Sir Gorllewin Sussex
- Western Power Distribution Ltd
- The Wetroom Ltd
- W H Malcolm Limited
- Wildlife and Countryside Link
- William Munro Construction (Highland) Ltd
- William Nicol (Aberdeen) Limited
- William Thompson & Son (Dumbarton) Ltd
- Cyngor Wiltshire
- Winvic Construction Ltd
- WJFJ Ltd
- WMG
- Wolverhampton Homes
- Womble Services Ltd
- Wood Recyclability
- The Woodhorn Group Ltd
- WPIF Environmental Ltd
- WPS Compliance Consulting Ltd WPSCC
- Yaskawa Electric UK Ltd
- Yorkshire Builders Ltd
- Yorkshire Water Services Limited